# Y Pwyllgor Deisebau

## "Cofnodion: PET(3) 13-10 : Dydd Mawrth, 2 Tachwedd  2010"

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

**Amser:** 08.55 – 10:35
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Veronica German AC, Dwyrain De Cymru

Leanne Wood AC, Canol De Cymru

**Swyddogion**

Naomi Stocks, Clerc

Daniel Collier, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

Rhodri Wyn Jones, Cymorth y Pwyllgor

**Tystion**

Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Teresa Holdsworth, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Busnes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi Addysg Uwch ac Addysg Bellach, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Linda Badman, Cyfarwyddwr, Canolfan Byd Gwaith, Cymru

June Price, Rheolwr Cyswllt Llywodraeth Cynulliad Cymru/Rheolwr Cronfa Swyddi'r Dyfodol, Canolfan Byd Gwaith Cymru

Rowan Foster, Is-adran Cyflogi Pobl Ifanc, Adran Gwaith a Phensiynau

**Eitem 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins, ac roedd Leanne Wood yn dirprwyo ar ei rhan.

**Eitem 2.Sesiwn Dystiolaeth: Dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc agored i niwed – y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.**

Papur: PET(3)-13-10 Papur briffio

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Teresa Holdsworth, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Busnes a Sgiliau, Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi Addysg Uwch ac Addysg Bellach fel rhan o'r ymchwiliad i'r ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer pobl ifanc agored i niwed.

**Cam i'w gymryd:**

Cytunodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ddarparu:

Rhagor o fanylion am y cymorth ariannol a ddarperir i bobl ifanc sydd ar gyrsiau dysgu yn y gwaith

**Eitem 3.Sesiwn Dystiolaeth: Dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc agored i niwed – y Ganolfan Byd Gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau**

Papur: PET(3)-13-10 Papur Briffio

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Linda Badman, Cyfarwyddwr, Canolfan Byd Gwaith Cymru, June Price, Rheolwr Cyswllt Llywodraeth Cynulliad Cymru /Rheolwr Cronfa Swyddi'r Dyfodol, Canolfan Byd Gwaith Cymru a Rowan Foster, Is-adran Cyflogi Pobl Ifanc, yr Adran Gwaith a Phensiynau fel rhan o'i ymchwiliad i'r ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc agored i niwed.

**Cam i'w gymryd:**

Cytunodd yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu:

Rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth lwfansau teithio ar gyfer ceiswyr gwaith, yn benodol pobl ifanc sy'n agored i niwed sy'n cael lwfans ceiswyr gwaith.

**Eitem 4. Deisebau newydd**

Papur: PET(3)-12-10 Papur briffio

**P-03-303 Yn erbyn Bwlio Homoffobig**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Llywodraethwyr Cymru a Stonewall yn gofyn am ragor o fanylion ac enghreifftiau o arferion da wrth fynd i'r afael â bwlio homoffobig mewn ysgolion.

Aros am ymateb gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**P-03-304 Gwelliant i'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Anfon y ddeiseb at y Pwyllgor Deddfwriaeth sy'n craffu ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) cyn y broses ddeddfu, iddynt hwy ei hystyried.

Aros am ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog.

**Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat o dan Reol Sefydlog 10.37**

**Eitem 5. Trafod y dystiolaeth**

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith, Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2010**